PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 1/2 | Ionawr 9, 2025 | 50c.




## Caersalem yn dathlu'r Nadolig



*Gwler mwy o dathliadau Nadolig ar y dudalen gefn*

## Blwyddyn Newydd Arall

Hoffem ar gychwyn blwyddyn newydd arall yn ein hanes ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb o ddarllenwyr *Y Tyst*. Diolchwn i Dduw am ein cynnal trwy gydol y 12 mis diwethaf ac am gael camu i mewn i'r cyntaf o'r 12 mis nesaf. Hefyd, diolch o galon i chi am eich cefnogaeth trwy gydol 2024 ac am yr holl hanesion, erthyglau, barddoniaeth, lluniau, gohebiaethau a sylwadau a gafwyd gennych mor gyson.

Cofiwch mai eich papur chi yw hwn, sydd yma i adlewyrch bywyd yr eglwysi annibynnol yn eu holl amrywiaeth, felly, peidiwch byth a bod yn betrus wrth anfon cyfraniadau atom. Y mae'r Arglwydd yn gweithio trwy bawb ohonom felly mae pob gair a anfonir gennych yn werthfawr ac yn arwyddocaol.

A oes gennych chi hanesion i'w rhannu gyda ni. Mae'n rhwydd. Anfonwch hwy at: tyst@annibynwyr.cymru

## Ugain mlynedd ers Accra

Un o'r atgofion o'm cyfnod fel Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg (2004–5) yw ymweliad ein Hysgrifennydd Cyffredinol ar y pryd, y Parchedig Dewi Myrddin Hughes, a'i briod Annette, i Gyngor Cyffredinol Cynghrair Eglwysi Diwygiedig y Byd (WARC – Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd, WCRC, erbyn hyn) yn Accra, Ghana. Bu iddynt rannu â mi effaith eu hymweliad i gastell Elmina yn Accra, caer fu a rôl ganolog yn y fasnach gaethweision trawsiwerydd. Trwy borthladd masnachu Elmina y sianelwyd 10,000–12,000 o gaethweision rhwng 1500 a 1535. Carcharwyd y caethweision o dan gapel y gaer, safle a ddefnyddiwyd yn ddiweddarach i gynnal arwerthiannau caethweision.

### Economi fyd-eang

Yng Nghyngor Accra, heriodd eglwysi'r De y teulu Diwygiedig i ddatgan cyffes ffydd unedig yn erbyn niwed economi fyd-eang yr unfed ganrif ar hugain. Bu yna anghytuno athrawiaethol, ond ymddangosodd consensws ynglŷn â natur broblematig yr economi fyd-eang a'r anghyfiawnderau y mae'n ei gynhyrchu. Arweiniodd y consensws hwn at safiad ffydd ynghylch anghyfiawnderau economaidd a dinistr ecolegol. O ganlyniad ffurfiwyd Cyffes Accra, sydd ers ugain mlynedd bellach wedi chwarae rhan ganolog yn nhrafodaethau'r teulu Diwygiedig. Arweiniodd at drafodaethau'r Strwythur Cyllidol ac Economaidd Rhyngwladol Newydd (NIFEA) ac esgorodd ar weithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd ein Hundeb ninnau.



### Cyffes Accra

Mae Cyffes Accra yn seiliedig ar yr argyhoeddiad diwinyddol bod anghyfiawnder economaidd ac ecolegol yr

*parhad ar dudalen 2*

# Ugain mlynedd ers Accra – *parhad*

economi fyd-eang gyfredol yn mynnu bod y teulu Diwygiedig yn ymateb iddo fel mater o ffydd yn Efengyl Iesu Grist. Datgan bod materion cyfiawnder economaidd ac ecolegol nid yn unig yn faterion cymdeithasol, gwleidyddol a moesol, ond hefyd yn rhan annatod o ffydd yn Iesu Grist ac yn effeithio ar gyfanrwydd yr eglwys. Mae bod yn ffyddlon i gyfamod Duw yn gofyn i Gristnogion unigol a chynulleidfaoedd eglwysi sefyll yn erbyn anghyfiawnderau economaidd ac amgylcheddol. Ugain mlynedd yn ddiweddarach, a yw Cyffes Accra wedi cael dylanwad? Ble saif y Gyffes yn ein cenhadaeth heddiw? Yn wythnos gyntaf Rhagfyr cefais y fraint fel Cydlynydd Gweithgor Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd ar Gyfiawnder Hinsawdd o fod yn un o ryw hanner cant o gynrychiolwyr rhyngwladol wedi eu hymgynnull yn Hannover, yr Almaen mewn ymgynghoriad Accra 20+ i holi a cheisio atebion i'r cwestiynau hyn.





### Datganiad proffwydol

Goblygiadau cenhadol Cyffes Accra fu prif drywydd ein trafodaethau. Fe'n hatgoffwyd o wreiddiau'r gyffes fel 'datganiad proffwydol' yn erbyn effeithiau dinistriol globaleiddio economaidd gan ganolbwyntio ar anghyfiawnder 'ymyleiddio systemig gwragedd a grwpiau gorthrymedig eraill.' Buom yn ystyried yr angen am fframweithiau cyfiawnder cynhwysol, a strwythurau sicrhau gwireddu dyhead dyfodol tosturiol, llawn llawenydd. Cawsom drafodaethau ar ryw a rhywedd gyda chynrychiolwyr yn rhannu profiadau o anghyfiawnderau yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Bu'r sgwrs ar ymgysylltiad ieuenctid ac economi gofal yn dreiddiol: 'Mae'r Economi Gofal hwn yn symud ein ffocws i les pawb, gan greu economi o obaith. Dychmygwch pa mor wahanol y gallai ein byd fod pe baem yn blaenoriaethu gofal a chymorth i bawb.'

### Eco-ddiwinyddiaeth

Fe'm gwahoddwyd i gymedroli sesiwn fore Iau. Y siaradwr cyntaf oedd y diwinydd, gwleidydd a chyn-lywydd Cynghrair Eglwysi Diwygiedig y Byd. Tra bûm yn fyfyriwr yn yr 1980au, ces dipyn o ymwneud â'r mudiad gwrth-apartheid, ac yn ystod y cyfnod deuthum yn gyfarwydd ag enw Allan Boesak fel beirniad a gwrthwynebydd di-flewyn-ar-dafod i bolisïau'r Blaid Genedlaethol yn Ne Affrica. Braint oedd ei gyfarfod a dod unwaith eto, o dan hud ei arddull areithio wrth iddo ofyn a feiddiwn siarad am obaith, a sut mae chwilio am iaith bywyd mewn ffydd a gwleidyddiaeth.

Fe'i dilynwyd gan un arall rwyf yn llawn edmygedd ohoni – Jessica Hetherington. Yn eco-ddiwinydd a gweinidog ordeiniedig, mae awdures hon yn cydblethu'r argyfwng ecolegol, rôl ffydd, a'r potensial ar gyfer disgyblaeth Gristnogol fel ffordd i ymateb yn radical ac yn ffyddlon i ofynion yr hyn sy'n digwydd o'n cwmpas. Erys ei chyflwyniad ar 'Disgyblaeth mewn Byd ar Dân: Ffydd Gristnogol ac Argyfwng Ecolegol' yn y cof am dro.

Y siaradwr olaf oedd y diwinydd Septemmy Lakawa o brifysgol Jakarta. Gwahanol iawn ei thrywydd, soniodd Septemmy am ddiwinyddiaeth y *noken*. Bag traddodiadol ym Mhapwa yw'r *noken* ac eglurodd sut y gall fod fel llestr a ffynhonnell bywyd yn cynnwys gwerthoedd crefyddol ac ysbrydol. Bu iddi ddehongli'r *noken* fel cynrychiolaeth o gariad Duw yn meithrin ffydd a gobeithion yn y Creawdwr. Yn ogystal, mae'r *noken* yn cael ei weld fel ail 'groth'. Mae plant sy'n cael eu geni yn cael eu rhoi mewn *noken* fel cynhwysydd ar gyfer twf a datblygiad nes eu bod yn medru cropian. Cysyniad gwerthfawr wrth ystyried ffydd, a chred.

Tridiau arbennig iawn. Adnabuwyd llwyddiannau niferus wedi deillio o Gyffes Accra; sylweddolwyd hefyd bod yna fethiannau mewn sawl agwedd. Tanlinellwyd gan nifer ohonom, a rhaid i mi gyfaddef fy mod i ofyn hyn mewn nifer o'r trafodaethau, 'faint o bwrpas sydd i'r fath gyffesion diwinyddol drwm os nad ydym yn eu cyflwyno mewn ffordd ddealladwy i aelodau'n heglwysi.' Dros y Nadolig byddwn fel aelodau'r ymgynghoriad yn gweithio ar grynhoi ein meddyliau mewn dogfen ymgynghorol i'w chyflwyno yng Nghyngor Cyffredinol Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd yn Chiang Mai ym mis Hydref.

Heb amheuaeth roedd Cyffes Accra yn garreg filltir yn hanes y teulu Diwygiedig yn 2004; mae'n dal yn berthnasol ac ynddi ceir canllawiau ffydd sydd yn ymateb i'n hanghenion yn 2024. Y cwestiwn a erys – faint o sylw mae'n heglwysi yn ei roi iddi?

**Hefin Jones**

## DIWEDD A DECHRAU BLWYDDYN

### Gweddïwn

Dduw, ein Tad nefol,
diolchwn am y flwyddyn a dynnodd i'w therfyn,
am y gwersi a ddysgasom wrth wrando dy Air;
am brofiadau o'th agosrwydd mewn dyddiau dwys;
am y sicrwydd i ti faddau ein camgymeriadau ffôl;
am i ti ein coroni â chariad a thrugaredd.
Ymbiliwn, Arglwydd, ar drothwy blwyddyn newydd
am d'oleuni a'th nerth i ddyfalbarhau;
am ffafr yr Arglwydd Iesu ym mhob ansicrwydd;
am lwydd i ymdrechion pawb sy'n ceisio heddwch;
am gyd-ddealltwriaeth i bawb sy'n arwain mewn byd a betws.
Wrth i ni wynebu yfory yn dy gwmni,
derbyn ein hymgysegriad a chryfha'n ffydd;
cysegra'n dyhead am adnewyddiad ysbrydol;
cynnal ni yn wyneb pob dieithrwch;
cyffwrdd ni â golau a gwres dy Ysbryd Glân,
yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen*.


(Allan o *Mil a Mwy o Weddïau* a olygwyd gan Edwin C. Lewis)

# COFIO JIMMY CARTER Y CRISTION

'Great men are almost always bad men,' meddai Arglwydd Acton, un o feddylwyr mwyaf Oes Victoria. *Almost always* – ond nid wastad. Un eithriad oedd Jimmy Carter, cyn-arlywydd America (1977–81), a fu farw'n 100 oed yn ddiweddar. Roedd Carter yn Gristion o argyhoeddiad dwfn, ac un o uchafbwyntiau fy mywyd i oedd cwrdd â fe yng nghapel bach anghysbell Soar-y-mynydd, fry yn y bryniau 10 milltir i'r de o Dregaron, ym mis Mehefin heulog 1986. Roedd ar wyliau yng Nghymru gyda'i gyfaill mawr Dr Peter Bourne, cyn swyddog iechyd arbenigol yn y Tŷ Gwyn, oedd yn berchen ar fferm ei dad-cu yn ardal Llanddewibrefi. Ar ôl i mi ymddiheuro am darfu ar ei wyliau, cytunodd yn llawen i gael ei gyfweld ar gyfer *Newyddion* S4C. Yn ddyn hynod gwrtais a gwylaidd, fe ganmolodd brydferthwch Cymru a chroeso'r bobol, a dweud cymaint roedd e wedi mwynhau'r Noson Lawen y noson gynt.

### Cofio Tryweryn!

Roedd Jimmy Carter wedi treulio oes yn sefyll yn gadarn yn erbyn pob math o anghyfiawnder. Ar ôl cerdded ar draws argae anferth llyn Brianne y bore hwnnw, gofynnodd i mi os oedd y dŵr yna i gyd yn mynd i Loegr. Atebais fod y rhan fwya o'r dŵr yna yn mynd i Abertawe. 'I guess that's OK then,' atebodd gyda'r wên enwog. Roedd e'n amlwg yn gyfarwydd â'r hanes am foddi cymoedd fel Tryweryn i gyflenwi dŵr i ddinasoedd Lloegr. Ym 1973, fel llywodraethwr Georgia, fe rwystrodd gynllun i godi argae ar draws yr afon Flint, a fyddai wedi boddi tiroedd sanctaidd y llwythau brodorol.



*Jimmy Carter, Dai Williams (fferm Brynteg, Cwrt-y-cadno) ac Alun Lenny.*

### Llw Arlywyddol i'r Arglwydd

Ar hyd ei oes hir roedd gweithredu ei egwyddorion Cristnogol yn ganolog i bopeth wnaeth Jimmy Carter. Cymerodd y llw Arlywyddol ym 1977 ar Feibl oedd yn agored ar yr wythfed bennod o'r proffwyd Micha, lle mae'r adnod: 'Mae'r ARGLWYDD wedi dweud beth sy'n dda, a beth mae e eisiau gen ti: Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser, a byw'n wylaidd ac ufudd i dy Dduw.' Fel Arlywydd, bu'n gyfrifol am gytundeb Camp David, ddaeth â heddwch rhwng yr Aifft ag Israel. Arwyddodd gytundeb gyda Rwsia i gyfyngu ar arfau niwclear, a seilio perthynas newydd gyda Tsieina. Yn dilyn methiant trychinebus anfon hofrenyddion i Iran i achub 52 o wystlon ym 1980, gwrthododd Carter ddefnyddio grym milwrol anferth America yn erbyn y wlad honno – o bosib y prif reswm pam na chafodd ei ailethol yn fuan wedyn. 'I could have wiped Iran off the map with the weapons that we had, but in the process a lot of innocent people would have been killed, probably including the hostages. Eventually my prayers were answered and every hostage came home safe and free,' meddai. Cymharwch hynny gydag ymdrech Benjamin Netanyahu i ryddhau'r gwystlon yn Gaza y dyddiau hyn trwy ddinistr erchyll sydd wedi lladd cymaint o bobol – gan gynnwys rhai o'r gwystlon a degau o filoedd o bobol ddiniwed.



### Heddwch a hawliau dynol

Tosturi a dyngarwch oedd sail bywyd Jimmy Carter. Ar ôl ei gyfnod yn y Tŷ Gwyn fe wnaeth fwy na'r un cyn-arlywydd arall erioed i hwyluso cymod a heddwch mewn sawl rhan o'r byd dolurus hwn, wrth weithio'n ddiflino dros hyrwyddo hawliau dynol. Am hynny, urddwyd ef a Gwobr Heddwch Nobel yn 2002. Tan yn gymharol ddiweddar bu'n athro ysgol Sul oedolion, a hynny am ddegawdau lawer. Safai yn erbyn anghyfiawnderau o fewn ei enwad ei hun: y Southern Baptists, oedd yn ymwrthod â phobl hoyw ac yn rhwystro menywod rhag bod yn ddiaconiaid a gweinidogion. 'Roedd Iesu wedi trin menywod yn gyfartal,' meddai Carter. 'Menywod oedd y cyntaf i dystio i'r Atgyfodiad. Rydym oll yn gyfartal yng ngolwg Duw.'

### Dilyn Iesu

Dywedodd yr Arlywydd Joe Biden fod ei ragflaenydd yn cynrychioli'r gwerthoedd dynol mwyaf sylfaenol. Roedd e'n esiampl o sut i fyw bywyd o ystyr a phwrpas, a byddai'n dda petai bob un ohonom yn gallu bod ychydig yn fwy fel Jimmy Carter, meddai Mr Biden. Ymdrechu i fod ychydig yn fwy fel Iesu Grist, wnaeth James Earl Carter. Dilynodd ffordd tangnefedd a dyngarwch, ffordd tosturi ac awydd i helpu eraill mewn ffyrdd ymarferol – er bod glynu at yr egwyddorion Cristnogol hynny wedi arwain at golli ei swydd fel Arlywydd ym 1980. Bydded i ninnau hefyd ddilyn y ffordd yna i mewn i'r flwyddyn 2025: ffordd yr Un a ddywedodd 'Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd.'

Dymunaf Flwyddyn Newydd fendithiol i chi i gyd.

**Alun Lenny**

# Gweddi-gerdd

'Dylai ddim bod yn syndod i ddisgyblion Iesu, wrth gofio ac arfer pur gyffredin yntau o ymateb i gwestiwn gyda chwestiynau.'

**Dyfrig Rees**

Offrymwyd y weddi isod mewn oedfa gydenwadol ar Sul y Cofio ym Mynydd Seion, Llangennech am 11am.

## Rhy Hwyr?

(Cwestiwn sydd yn ateb)

Wrth edrych i'r gorffennol
Gan ddwyn ein doe i go',
Ni fynnem fyth anghofio
Aberthol blant pob bro;
Y rhai sy'n haeddu'n heddwch,
A'n diolch glân, di-gŵyn;
Tra'n llwyr ymroi i gymod,
cyn iddi fynd rhyw hwyr!

Dy lais sy'n gyson atsain
O'n mewn, ac ym mhob man:
'O, pam na welwch uffern
Eich grymusterau gwan?'
A mynnu mai maddeuant
Yw rhoddion undeb llwyr,
A'r cymun sy'n y cariad
Nad ydyw byth yn hwyr!
Gwahanol iawn i'n trachwant
Oedd Israel Mab y Saer,
Ac ynddo caed tangnefedd
Sy'n gynganeddol daer:
I'r sawl a glyw 'yr Alaw'
Cânt olau'r 'Duw a ŵyr'
Ynghyd a gwres a gobaith
Holl 'Fore da' yr hwyr.

**D. Gerald Jones**

Yr Adran Gydenwadol

IONAWR 9 2025 RHIF 201/202

# Brwdfrydedd yn Nant Conwy

Tri pheth sydd eu hangen i gael datblygiad mewn ardal wledig, sef brwdfrydedd y werin, y person iawn i arwain ac, wrth gwrs, arian. Mae newid yn gadarnach yn dod o'r werin, yn ôl hanes, a dyna ddigwyddodd. Roedd nifer wedi clywed am ŵr lleol, sef y Parch. Owain Davies, oedd yn y coleg yn dilyn cwrs at y weinidogaeth ac wedi cyflawni gwaith ardderchog fel gweithiwr gyda theuluoedd ym Mangor. Y nod felly oedd ei gael yn weinidog yn Nyffryn Conwy. Mentrwyd i drefnu cyfarfod yn 2020 o holl eglwysi Presbyteraidd ac Annibynnol yr ardal, a chafwyd ymateb gwefreiddiol o gytundeb i symud ymlaen i sefydlu gofalaeth fro. Llwyddwyd i gael grant Gweinidogaeth Newydd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Cafwyd hefyd gymorth ariannol gan Undeb Annibynwyr Cymru dros y blynyddoedd, yn cynnwys grant ychwanegol yn ddiweddar. Roedd hyn yn rhyddhau Owain i weithio tu hwnt i furiau am ddau ddiwrnod yr wythnos. Sefydlwyd y Parch Owain Davies yn weinidog. Roedd y tri pheth a nodwyd uchod wedi eu gwireddu. Diolchwn drwy ras Duw ein bod wedi cael gweledigaeth i dynnu pawb at ei gilydd cyn i eglwysi unigol ddechrau digalonni.

Nid oedd hyn yn ddim ond gosod sylfaen i ddatblygiadau cyffrous pellach yn yr ardal. Rhannwyd yr ofalaeth yn dri chlwstwr o eglwysi i weithio fel timau a chydaddoli, gan ysgafnhau gorchwylion gweinidog mewn ardal mor eang. Gwelwyd y diddordeb yn tyfu a gwên ar wynebau pobl mewn oedfaon. Dan arweiniad Owain, gwelwyd niferoedd teilwng yn mynychu cyfarfodydd teuluol. Mae gwaith cymunedol gyda phlant a phobl ifanc a'r byd amaethyddol yn mynd rhagddo. Daeth golwg newydd ar bethau, gan weld mai trwy ddulliau gwahanol i'r traddodiadol y mae rhannu neges yr Efengyl, ond gan gadw cysylltiad â'r eglwysi yr un pryd. Yr eglwysi o hyd sydd yn sylfaen i'r cwbl.

Mae neges Crist yn curo ar ddrws ein clybiau CIC, chwaraeon a drysau amaethyddiaeth, yn ogystal â theuluoedd oedd wedi dieithrio a cholli cysylltiad. Sefydlwyd Owain yn ogystal yn gaplan y clwb rygbi, ac mae'n rhan o drefniadaeth y clwb i gefnogi parthed iechyd meddwl. Deffrowyd hefyd yr ysgolion Sul wedi'r Cofid.

Deil brwdfrydedd yr Ofalaeth Fro sy'n parhau i ysgwyddo baich ariannol i ryddhau Owain i ymestyn allan tu hwnt i furiau. Mae ei frwdfrydedd yn heintus a'n diolch yn fawr iddo. Mae grantiau'r ddau enwad wedi bod yn werthfawr iawn, a diolch amdanynt. Yn anffodus, gwêl llawer ein heglwysi'n ymylol i'w bywydau a rhagwelir llai yn ymaelodi. Mae her i ni a'r enwadau, felly, i fod yn greadigol parthed sut yr ariennir gwaith fel hwn i'r dyfodol, gan gadw mewn golwg barhad rolau traddodiadol eglwysi. Pleser yw cyflwyno ambell lun sy'n rhoi cip ar rai o'r gweithgareddau sy'n mynd ymlaen yn ein hardal.

*Huw Roberts*
*Cadeirydd Gofalaeth Bro Nant Conwy*



Morgan Elwy wedi bod yn creu cân Nadoligaidd gyda'r clybiau CIC i'w chyflwyno yn ein gwasanaethau Nadolig y flwyddyn yma



Cystadleuaeth pêl-droed oedolion 'Cwpan y Gofalaethau'



Cystadleuaeth Cwpan CIC, sef cystadleuaeth bêl-droed i glybiau CIC yr ofalaeth

# Lansio *Eglwys y Bobl 3 – blwyddyn C*

Ar drothwy Sul Cyntaf yr Adfent, sy'n nodi blwyddyn newydd yn y calendr eglwysig, daeth criw da ynghyd yn Athrofa Padarn Sant, Llandaf, Caerdydd, i lansio'r drydedd gyfrol mewn cyfres o dair, sef Eglwys y Bobl 3, cyfrol ar gyfer Blwyddyn C o'r Llithiadur. Mae'r gyfrol yn cynnwys myfyrdodau gwreiddiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r rheini wedi eu paratoi gan fyfyrwyr yr Athrofa ac eraill.

Bellach mae'r tair cyfrol ar gael, ac yn cynnig pregeth ddwyieithog ar gyfer pob un Sul dros gyfnod o dair blynedd. Roedd y project yn ffrwyth cydweithio rhwng yr Athrofa yn Llandaf a'r Cyngor Ysgolion Sul, ac wrth lansio'r drydedd gyfrol, diolchodd Aled Davies am y cydweithio hapus ac am waith arbennig Angharad Gaylard a Manon Ceridwen James.

Cafwyd swper tri chwrs arbennig fel rhan o'r lansiad, yn ddathliad o ddiolchgarwch o gwblhau'r gyfres. Mae'r llyfrau ar gael erbyn hyn yn eich siop lyfrau Cymraeg leol, a hynny am £13.99 yr un. Ceir mwy o wybodaeth ar wefan www.ysgolsul.com





# 'Ar gyfer heddiw'r bore'

Hanner can mlynedd union yn ôl, yn 1974, enillodd Dafydd Ifans y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Myrddin â'i berl o nofel, *Eira Gwyn yn Salmon*. Adlais yw teitl y nofel o ymadrodd yn niwedd un o'n carolau plygain mwyaf poblogaidd, sef 'Ar gyfer heddiw'r bore' gan Dafydd Hughes ('Eos Iâl'). Un o nodweddion ein carolau plygain yw eu bod yn llawn cyfeiriadau beiblaidd; ac adlais yw 'eira gwyn yn Salmon' yn y garol o'r adnod yn Salm 68 sy'n sôn am eira yn disgyn ar fynydd tywyll Salmon, nid nepell o Ffynnon Jacob yn Samaria.

Nodwedd arall ar ein carolau plygain yw eu bod yn hir. Pan gyhoeddwyd 'Ar gyfer heddiw'r bore' am y tro cyntaf, yn 1839, yr oedd yn ddeuddeg pennill i gyd – er mai dim ond y ddau bennill cyntaf a'r un olaf sy'n cael eu canu fel arfer bellach. A'r hyn a gawn yn y ddau bennill cyntaf yw plethwaith o'r addewidion yn yr Hen Destament am frenin eneiniog – y Meseia – a fyddai'n dod yn waredwr i'w bobl. Ef, er enghraifft, yw'r bachgen doeth o gyff Jesse yng ngweledigaethau'r proffwyd Eseia, a'r dŵr bywiol a ragwelodd y proffwyd Eseciel.

Un arall o nodweddion y carolau plygain yw eu bod yn aml yn symud ymlaen yn gyflym o'r preseb ym Methlehem at y groes ar Galfaria, er mwyn pwysleisio pam y daeth Crist i'r byd a sut y mae'n gwaredu. Ac ar ôl adrodd hanes y Croeshoeliad, wrth sôn yn ei garol am Grist yn cael ei gladdu, mae Eos Iâl yn defnyddio delwedd drawiadol iawn. Mae cysgu mewn gwely llaith yn berygl bywyd yn llythrennol; ond dywed yr Eos fod Crist wedi gorwedd yn y bedd – yng ngwely angau – er mwyn, meddai, 'dynnu'r damp o'i waelod'. Hynny yw, am i Iesu 'gynhesu'r bedd' ac yna atgyfodi, ni all angau niweidio ei bobl na'u cadw'n gaeth.

Rhyw fath o bregethau ar gân yw'r carolau plygain. Ac nid yw'n syndod felly weld Eos Iâl yn niwedd ei garol, fel pregethwr, yn annog pawb yn daer i frysio mewn ffydd ac edifeirwch at y Gwaredwr, at yr Un sydd wedi trechu angau a'r bedd, yr Un a all faddau ein pechodau a'n gwneud yn lân fel eira newydd, disglair.

*E. Wyn James*
*Caerdydd*

('*Munud i Feddwl', BBC Radio Cymru, dydd Llun, 23 Rhagfyr 2024*)

# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**

**Gweddïwn**

Ysbryd Sanctaidd, dyro'r golau
ar dy eiriau di dy hun;
agor inni'r Ysgrythurau,
dangos inni Geidwad dyn.
(*Caneuon Ffydd*, 590)

**1. Rhagarweiniad**

Mae'r Hen Destament yn debyg i gwpwrdd llyfrau ac iddo dair silff. Ar y silff uchaf ceir y Gyfraith (Genesis–Deuteronomium) a'r llyfrau hanesyddol (megis Samuel a'r Brenhinoedd) a'u pwyslais ar *weithredoedd* Duw sy'n ei ddatguddio'i hun i'w genedl etholedig. Ar yr ail silff ceir y llyfrau proffwydol (Eseia–Malachi) sy'n canolbwyntio ar ddyletswydd Israel i wrando ar *eiriau* Duw. Ac ar y silff isaf ceir y Salmau a'r casgliad o lyfrau a adnabyddir fel llên ddoethineb (sef Job, Diarhebion a'r Pregethwr), llyfrau sy'n croniclo ymateb credinwyr i weithredoedd a geiriau Duw.

Cyn symud ymlaen i esbonio'r testun, buddiol fyddai inni ystyried prif nodweddion llên ddoethineb.

**Tair nodwedd**

Gwneir defnydd cyson o dair ffurf lenyddol yn y llyfrau doethineb, sef: dihareb, cyfarwyddyd a hunangofiant.

***a. Dihareb***

Patrwm sylfaenol y llên yw'r ddihareb. Hi yw athroniaeth bywyd yr Hebrëwr, yn yr ystyr o wybodaeth ymarferol am reolau bywyd a'r byd, gwybodaeth sy'n seiliedig ar brofiad. Dewisodd y doethion hi fel y ffurf fwyaf addas i rannu â'u cyfoedion ffrwyth eu sylwadaeth dreiddgar ar fywyd.

***b. Cyfarwyddyd***

Patrwm llenyddol arall a ddefnyddir yw'r cyfarwyddyd. Fel rheol, mae'n dilyn pwnc neu thema dros amryw o adnodau. Gwneir defnydd helaeth ynddo o ffurf orchmynnol y ferf wrth annog y darllenydd i dderbyn, cofio neu wneud yr hyn sy'n angenrheidiol.

***c. Hunangofiant***

Gan fod llên y doethion yn adlewyrchu eu profiad hwy o fywyd, ceir enghreifftiau o hunangofiant sy'n disgrifio'r profiad hwnnw ac yn tanlinellu'r gwersi y maent am i'r darllenydd eu dysgu. Gwneir defnydd helaeth o ymadroddion fel 'gwelais, edrychais, sylwais, trois i edrych, ystyriais'.

**Bywyd**

Gellir crynhoi prif thema'r doethion mewn un gair: 'bywyd'. (Diarhebion 10:17). I'r doeth, mae'r gair yn gyfystyr nid yn unig ag oes hir ond hefyd â'r syniad o ryddid, parch, diogelwch, llwyddiant, hapusrwydd, digonedd a chyfoeth – popeth sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw.

Ond er bod y pwyslais ar bethau bydol yn amlwg, nid materoliaeth ronc yw dysgeidiaeth y doethion. Buasai agwedd o'r fath yn amhosibl gan mai'r Arglwydd oedd ffynhonnell pob bendith ysbrydol a materol ym meddwl Israel. Trwy lygad ffydd, gwêl y doeth anghenion beunyddiol bywyd yn arwyddion allanol o haelioni Duw at ddyn a'i ofal dros ei greadigaeth.

**Diolch i'r drefn**

Nodwedd amlwg arall mewn llên ddoethineb yw'r argyhoeddiad fod i fywyd drefn sefydlog, ddigyfnewid. Dyna sydd i gyfrif am yr agwedd obeithiol, optimistaidd a welir ynddi'n gyson. Gall y doeth wynebu'r dyfodol yn hyderus a llawen am fod ganddo ffydd ddiysgog yn nhrefn ddibynadwy'r bydysawd, trefn a osodwyd gan Dduw o'r dechrau.

Mae'r drefn yn ymwneud â phob rhan o fywyd. Fe'i gwelir, er enghraifft, yng nghysondeb troad y rhod ac yng ngreddf yr anifail. Hi hefyd yw hanfod bywyd beunyddiol cymdeithas. Yn y cyswllt hwn, bron na ellir ei disgrifio fel 'cyfiawnder' neu 'gyfrifoldeb' am mai hi sy'n rheoli ymarweddiad yr unigolyn ac ymwneud pobl â'i gilydd. Y mae ffordd dderbyniol a ffordd annerbyniol o ymddwyn; dyletswydd pobl yw darganfod y ffordd gywir a glynu wrthi. Dim ond iddo'i uniaethu ei hun â'r drefn, daw llwyddiant a hapusrwydd i'w ran gan fod cysylltiad agos rhwng gweithred a gwobr.

**Gwrthdaro**

Ond y mae elfen arall. Yn raddol, tyfodd yr ymwybyddiaeth o'r gwrthdaro anorfod rhwng ffydd a ffaith. Sylweddolwyd na ellid gwireddu'r hen ddysgeidiaeth am hawddfyd y da a thrallod y drwg am nad oedd profiad bywyd yn ategu hynny. Yr oedd yr anhrefn yn y byd yn chwalu'r gred fod gwobr yn cyfateb i rinwedd a chosb yn cyfateb i ddrygioni. Esgorodd yr agwedd hon maes o law ar yr elfen o amheuaeth a ddaw i'r amlwg mewn llyfrau fel Job a'r Salmau.

Wrth fynd drwy'r testun yn ystod yr wythnosau nesaf gwelwn fod y Pregethwr yn defnyddio'r tri phatrwm llenyddol, yn enwedig hunangofiant. Trwy siarad o brofiad, mae'n cynnig i'w ddarllenwyr ffrwyth ei sylwadaeth ar gwrs y byd ac yn rhannu â hwy'r profiadau ysbrydol a gafodd wrth fyfyrio ar fywyd. Yn wir, mae'r Pregethwr yn mynd ymhell y tu hwnt i bob awdur arall mewn llawer peth. Wrth fyfyrio ar y traddodiad diwinyddol y tarddodd ohono, nid ei fwriad yw ateb cwestiynau, fel y gwnaeth ei ragflaenwyr, ond cwestiynu'r atebion.

**Beth 'dych chi'n feddwl?**

1. A yw pob rhan o'r Beibl yn gyfwerth?
2. Pam mae pobl ddrwg weithiau'n llwyddiannus?








Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# 'Dydi'r eglwys ddim yn gallu fforddio bod yn dawel, yn niwtral, yn ddifater' – CWM yn arwain ymgynghoriad byd-eang ar gaethwasiaeth fodern

Cefais y cyfle ym mis Tachwedd 2024 i fynd i Bangkok i gynhadledd gan Gyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM). Yno roeddem yn trafod caethwasiaeth fodern a'r rôl neu'r cyfrifoldeb sydd gennym ni fel eglwysi ynglŷn â'r mater hwn.

Dechreuodd y gynhadledd yn y bore – ar ôl cael pryd o fwyd a chysgu noson yn dilyn taith hir yno – gydag addoliad, pan gyflwynwyd yr adnodau o 2 Brenhinoedd 5:1–19. Mae'r ferch ifanc yn yr hanes wedi cael ei chymryd yn gaeth, ond nid ydym yn gwybod ei henw. Hi ydi'r unig un yn yr hanes sydd heb enw. Cysylltodd Philip Peacock, Ysgrifennydd Cyffredinol Gweithredol Rhaglenni Cymuned Fyd-eang yr Eglwysi Diwygiedig, hyn â'n pwnc drwy ddweud ein bod yn gwybod enwau cwmnïau'r dillad rydym yn eu gwisgo, fel y 'bobl bwysig' yn yr hanes, ond nid ydym yn gwybod enwau'r rhai sydd wedi eu creu, fel y ferch. Nid ydym yn gwybod faint maent yn cael eu talu, na'r amodau y maent yn gweithio ynddyn nhw.

Roedd y neges gyntaf a gawsom yn canolbwyntio ar addysg, a phwysigrwydd dysgu hanes caethwasiaeth, yn enwedig mewn ysgolion, fel bod pobl ifanc yn tyfu i fyny'n ymwybodol o'r sefyllfa. Sut ydyn ni'n cyflwyno'r pwnc yma i'n pobl ifanc?

Dechreuodd ein sesiwn gyntaf gyda Dr Sudipta Singh, Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol CWM, yn gofyn y cwestiynau yma: "Ydi eich siocled yn siocled chwerw? Ydi eich coffi yn bragu caethwasiaeth?" O ble mae'r coffi neu siocled rydym yn ei fwyta yn dod, a phwy sy'n ei wneud? Mae'r rhain yn gwestiynau da i'w gofyn i'n hunain wrth i ni wneud ein siopa personol yn yr archfarchnad, a hefyd yn ein heglwysi lleol. Mae'n siŵr fod llawer ohonom yn hoffi cael paned a sgwrs yn dilyn ambell oedfa ar ddydd Sul, ond ydi eich eglwys yn defnyddio te a coffi sy'n Fasnach Deg? Dydi llawer o bobl sy'n tyfu'r pethau rydym yn eu bwyta ddim yn cael eu talu hanner digon am y cnydau. Ond pan welwch y symbol Fairtrade ar baced, rydych yn gwybod fod y person wedi cael pris teg amdano.



Siwan gydag un o'r grwpiau trafod

Bore trannoeth, cawsom addoliad arall i ddechrau'r diwrnod. Doedd o ddim yn addoliad 'hawdd' o bell ffordd gan ein bod yn gweld mewn llyfryn (a gawson ni i fynd adre efo ni) ac ar y sgrin o'n blaen luniau o'r gwahanol fathau o gaethwasiaeth fodern sy'n digwydd yn ein byd. Yn wir, un peth wnes i ei ddysgu yn ystod fy amser yn y gynhadledd oedd fod yr enghreifftiau bron yn ddiddiwedd a bod llawer iawn o'r un pethau'n digwydd mewn gwledydd gwahanol. Mae caethwasiaeth fodern yn digwydd o'n cwmpas o hyd, ac yn y wlad yma dydyn ni ddim yn ymwybodol o'r peth rywsut. Mae'n digwydd ond mae'n gudd iawn i ni fel arfer. Efallai fod y person sy'n gweini arnon ni yn y siop, neu'r person rydym yn cael sgwrs gyda hi yn y ciw yn dioddef oherwydd caethwasiaeth fodern.

Yn ystod y diwrnod yma, dechreuom drafod beth all yr Eglwys ei wneud am y broblem yma. Dyma rai o'r pethau a awgrymwyd. Yn gyntaf, ein bod yn gweithredu fel eiriolwyr ac yn codi ymwybyddiaeth. Mae hyn yn enwedig o wir am Ewrop; roeddem i gyd yn cytuno yn ein grŵp trafod mai dyma'r cam cyntaf yn ein cyfandir ni. Gallai'r eglwysi fod yn creu mannau saff i bobl sydd eu hangen, ond mae'n dipyn o dasg rhoi cymorth penodol i bobl heb wybod sut i wneud hynny. Weithiau, mae agor drysau a chynnig paned a lle saff i fod yn ystod y dydd yn ddigon. Bydd rhai eglwysi'n fwy profiadol ac yn gallu rhoi'r cymorth penodol mae rhywun ei angen. Beth am bartneru gyda sefydliadau eraill sy'n gallu rhoi cymorth arbenigol? Neu gynnig cymorth ysbrydol ac emosiynol?

Atgoffodd Sudipta ni yn ei sesiwn fod Iesu wedi bod yn gaethwas, ac yr oedd yn bwyta ac yn yfed gyda rhai oedd yn gaethweision. "Dydi'r eglwys ddim yn gallu fforddio bod yn dawel, yn niwtral, yn ddifater" am y sefyllfa yma.

Yn ei gyfarchion o groeso ar ddechrau'r gynhadledd, dywedodd y Parch. Ddr Jooseop Keum, Ysgrifennydd Cyffredinol CWM: "Bod yn radical ydi camu ymlaen yn hyderus, yn hytrach nag un cam ar y tro". Felly, oes yna rywbeth radical fedrwn ni ei wneud heddiw? Neu, gan fod pob cam ymlaen yn helpu, beth yw ein cam cyntaf ni?

*Siwan Jones*

[I ddarllen datganiad CWM yn llawn, ewch i: https://www.cwmission.org/wp-content/uploads/2024/12/202411_cwm_mds_statement_final.pdf]

# Cerddi 'duw' a dyddiadur dadlennol


Mae gennym arlwy lawn a diddorol iawn ar gyfer darllenwyr *Y Traethodydd* yn rhifyn cyntaf y flwyddyn newydd. O ran y deunyddiau creadigol, ceir tair cerdd nodweddiadol heriol gan Aled Jones Williams, bardd sydd wedi cael clod y Cyn-archesgob Rowan Williams a'r beirniad llenyddol M. Wynn Thomas fel y mwyaf mentrus o'n beirdd cyfoes. 'duw' – heb y brif lythyren – yw teitl y tair cerdd fel ei gilydd, a hynny'n rhoi awgrym o'u thema. Dilynir nhw gan stori fer dyner iawn gan lenor creadigol medrus arall, sef y bardd a'r storïwr John Emyr o Gaerdydd.

O droi o'r creadigol at y dadansoddol, ceir ail ran astudiaeth ddifyr Llion Wigley o hamddena ac o ffasiynau deallusol ieuenctid Cymru rhwng y ddau ryfel byd. Tynged pob cenhedlaeth yw adweithio yn erbyn ei hynafiaid, â llanciau a llancesi pob oes yn credu mai nhw yw'r unig rai erioed i brofi o lesmair ieuengrwydd. Fel y gwelwn o'r astudiaeth hon, roedd ein hen neiniau a'n hen deidiau ninnau yn ifanc unwaith.

Ceir hefyd ddwy ysgrif arall o duedd hanesyddol, eiddo'r golygydd ar y Canon John Pryce, deon Bangor, a rhan gyntaf pennod ddadlennol Gruffydd Aled Williams ar Walter Brut, y Lolard o'r gororau a oedd yn un o ddilynwyr selocaf Owain Glyndŵr. Yr Athro Williams yw'n harbenigwr pennaf ar fywyd y gwladweinydd o Sycharth, a da cael gwybod mwy am ymwneud Walter Brut ag ymgyrchoedd Glyndŵr. Bydd ail ran yr ysgrif yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.

Bydd llawer iawn, os nad pawb o garedigion 'Y Pethau', yn cael budd a difyrrwch o ddyddiadur hynod Derec Llwyd Morgan, 'Dyddlyfr Prifathro wrth ei Ewyllys'. 'Yr wyf yn ysgrifennu'r nodyn hwn ddeng mlynedd ar hugain er pan gefais fy mhenodi'n Brifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth', meddai wrth gyflwyno ysgrif sy'n rhannu â ni gynnwys dyddiadur a gadwodd yn ysbeidiol rhwng 1995 a 2005. 'Tybiais y byddai detholiadau ohono'n ddiddorol a derbyniol i rai darllenwyr, os weithiau'n boenus i mi.' Wel ie, debyg iawn! Cewch yma ddarn tra darllenadwy o hanes Cymru diwedd y ganrif ddiwethaf, a golwg newydd ar ddigwyddiadau yn un o'n sefydliadau cenedlaethol pwysicaf. Byddwch yn adnabod llawer o'r cymeriadau y crybwyllir eu henwau, ac yn cael eich diddanu a'ch goleuo wrth ddarllen yr hanes. Gobeithio'n wir y bydd yr awdur yn gyrru atom ddetholiad arall o'r dyddiadur cyn bo hir.

Yn dilyn hynny ceir adolygiad Rhys Llwyd, y gweinidog ifanc o Gaernarfon sydd wedi gwneud gwaith ymchwil helaeth ar seiliau cenedlaetholdeb modern, ar y gyfrol *Gobaith, Gras a Gogoniant: Crefydd ac Ysbrydolrwydd yng Ngwaith Emrys ap Iwan* gan Densil Morgan.




Anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* unwaith eto nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

Fe'ch gwahoddir yn gynnes i lansiad
**43:19 Cymru**
elusen newydd fydd yn cefnogi gwaith
Andy a Rachel Hughes yng Nghymru

2pm, dydd Sadwrn Ionawr 18fed, 2025
Kinmel Bay Church, 83 St Asaph Ave.,
Bae Cinmel, LL18 5EY


Wnawn ni fwynhau addoliad,
cymdeithas, coffi a chacen gyda'n
gilydd a chlywed am y cynlluniau ar
gyfer y misoedd nesaf

RSVP i Rachel ar ☎ 07766 069415 neu
rachelhughes4319@gmail.com

43:19 Cymru

Edrychwch, dw i'n gwneud rhywbeth newydd! Eseia 43:19
Behold, I am doing a new thing! Isaiah 43:19

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt
## *Conclave*



Yn ystod gwyliau'r Nadolig, fe fuon ni fel teulu'n trafod ffilmiau gorau 2024. Ac roedd pawb yn gytûn taw *Conclave*, yn seiliedig ar lyfr o'r un enw gan Robert Harris, oedd yr enillydd eleni. Mae'r ffilm yn adrodd stori a'r broses o ethol Pab newydd.




Nawr, dydw i ddim am roi unrhyw *spoilers* i chi! Ond mae'r ffilm yn un ddiddorol, yn enwedig i ni, Gristnogion. Trwy ddangos a dadansoddi'r tensiynau sy'n codi ymhlith y cardinaliaid sy'n cwrdd i ethol y Pab newydd, mae'r ffilm yn ein helpu i ddeall a dadansoddi'r tensiynau sy'n bodoli ym mhob eglwys a chapel.

Ar ddechrau'r broses, sy'n digwydd yn hollol gyfrinachol (mae'r gair 'conclave' yn dod o'r geiriau Lladin sy'n golygu 'dan glo'), mae pedwar ymgeisydd amlwg i'r swydd: Cardinal Bellini o'r Unol Daleithiau, Cardinal Adeyemi o Nigeria, Cardinal Tremblay o Ganada, a Cardinal Tedesco o'r Eidal. Fel y Pab Ffransis go iawn, roedd y diweddar Bab yn y stori wedi trio moderneiddio'r eglwys, a bod hyd yn oed ar agor i drafod ordeinio menywod! Ac mae Bellini'n ei ddilyn: mae ef hefyd eisiau gweld eglwys fwy agored a mwy modern. Ond mae Tedesco'n gwrthwynebu hynny'n llwyr – mae ef yn gweld nifer y bobl sy'n mynd i'r eglwys yn gostwng, ac yn beio'r newidiadau yn yr eglwys am hynny. Mae Tedesco'n ddyn ceidwadol sydd eisiau mynd â'r eglwys yn ôl i ddyddiau gogoneddus ei gorffennol.

A dyma frwydr yr ydym yn ei gweld hefyd yn ein heglwysi ni. Mewn bron pob eglwys mae Bellini sy'n dweud bod rhaid i'r eglwys newid os ydy hi am dyfu neu hyd yn oed am oroesi. Ac mae Tedesco sy'n dweud taw arnom ni mae'r bai am y seddi gwag ar y Sul, achos nad ydyn ni wedi aros yn ffyddlon i Dduw ein tadau a'n mamau.

Ar ôl datblygiadau sy'n golygu bod Tremblay ac Adeyemi'n camu yn ôl, mae'r etholiad yn mynd yn gystadleuaeth rhwng y cardinaliaid rhyddfrydol sy'n cefnogi Bellini a'r rhai ceidwadol sy'n cefnogi Tedesco. Ond wedyn mae rhywbeth treisgar a gwleidyddol yn digwydd yn Rhufain, gyda'r canlyniad bod llawer o bobl yn marw – ac yn rhoi esgus i Tedesco alw am ryfel crefyddol yn erbyn gelynion Duw. A dyma lle mae un o'r cardinaliaid eithaf anhysbys, Cardinal Benitez, yn sefyll ac yn dweud wrth bawb nad ydy rhyfel, trais a chasineb yn dechrau gyda gelynion y ffydd Gristnogol. Mae rhyfel, trais a chasineb yn dechrau yng nghalon pob un ohonom, ac os ydym am alw ein hunain yn ddilynwyr Iesu Grist, mae rhaid i ni ddechrau gan ofyn iddo fe newid ein calonnau ni.

Dydw i ddim yn mynd i ddweud wrthych pwy sy'n ennill yr etholiad – mae rhaid i chi wylio'r ffilm! Ond dwi am i ni feddwl am hyn: yn rhy aml, mae yna rwyg yn ein heglwysi ni rhwng y Tedescos sy'n mynnu mynd tuag yn ôl a'r Bellinis sydd eisiau newid. Mae'n gallu bod mor ddryslyd i ni fel Cristnogion: cynhesu byd-eang; cymorth i farw; hunaniaeth rywiol; priodasau o'r un rhyw – sut all Cristnogion dirnad y penderfyniad cywir? Sut i ddod o hyd i lwybr Iesu rhwng y ceidwadol a'r rhyddfrydol? Pwy sy'n iawn: Tedesco neu Bellini?

Ond y gwirionedd yw: nid Tedesco, na Bellini chwaith, sydd ei angen ar ein heglwysi ni. Mae arnom angen pobl fel Cardinal Benitez, sy'n pregethu efengyl cariad, gras a maddeuant Iesu Grist. Mae angen arweinwyr sy'n dilyn gorchymyn y llythyr at yr eglwys yn Effesus: 'Gwnewch eich gorau glas i ddangos bod yr Ysbryd Glân wedi'ch gwneud chi'n un, a'i fod yn eich clymu chi gyda'ch gilydd mewn heddwch.'

---

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 12 Ionawr, am 7:30yh – Cymuned Pencaenewydd**
Mae Lisa Gwilym yn Eifionydd i gwrdd â chymuned sydd wedi trawsnewid eu haddoldy. Cawn weld sut maen nhw wedi adfer y traddodiad o gynnal gŵyl ddrama yn eu capel ym Mhencaenewydd, ger Pwllheli. Ymhlith y gwesteion mae'r actor Llion Williams a Bethan Jones Parry. A chawn berfformiad gan Gôr Meibion Carnguwch.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 12 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Tad Allan R. Jones

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 12 Ionawr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Glyn Wise, Athrofa Padarn Sant, Caerdydd

# DIALEDD Y NATSÏAID YN DINISTRIO CARTREF UNDEB 1937

Wrth chwilio am lyfr arall ymhlith y cant a mil sy'n y tŷ yma, digwyddais ddod ar draws *Llawlyfr Cyfarfodydd Llundain, Gorffennaf 6-8*, 1937, a gynhaliwyd yn Whitefield's Tabernacle, Tottenham Court Road. Gan na fues i yn Llundain ers 17 mlynedd tan fis Hydref eleni, nid wyf yn gyfarwydd â'r brifddinas fawr honno – ar wahân i Tottenham Court Road a'r strydoedd cyfagos, gan i mi eu crwydro tra roeddwn yno i bregethu yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain (gweler *Tyst 45*). Felly, roedd gennyf ddiddordeb newydd yn y llawlyfr yma.



### Mawrion efengylaidd

Codwyd y capel cyntaf yn 1756 ar gyfer y pregethwr mawr George Whitefield (neu Whitfield), arloeswr y 'pregethu awyr agored' a gafodd y fath ddylanwad ar arweinwyr Calfinaidd Cymru, megis Howell Harris – 'fy annwyl frawd'. Mae sôn bod Harris wedi ymweld â'r brifddinas 24 o weithiau yn 1739–52 er mwyn cynnal seiadau a phregethu i Gymry Llundain 'in the Ancient British tounge' gan gymryd gofal o'r Tabernacl ei hun am rai misoedd tra roedd Whitefield yn America. Cyfeiria Williams Pantycelyn at y capel yn ei farwnad i Whitefield:

> Llundain fawr, tydi gas benna'
> Ffrind y nefoedd i'th fugeilia;
> *Tot'nam Court Road,* darfu iti
> Golli'r tadmaeth gorau feddi;
> Y Tabernacl sy'n amddifad
> Whitefield fwyn a gafodd alwad.

### Llyncu'r safle gan y ddinas

Safai'r capel gwreiddiol ynghanol caeau a gerddi ar ymylon Llundain, ac yn fuan bu'n rhaid ei ehangu i ddal y miloedd oedd am glywed George Whitefield yn pregethu, wrth i'r ddinas hefyd ehangu gan lyncu'r safle. Gwelodd yr achos sawl tro ar fyd, tan 1903 pan godwyd y capel lle cynhaliwyd cyfarfodydd 1937 yr Undeb.

### Elfed a Dyfnallt yn arwain

Estynnwyd y gwahoddiad i gyfarfodydd yr Undeb ar ran saith Eglwys Annibynnol Cyfundeb Llundain gan y Parchg Elvet Lewis, oedd bryd hynny'n weinidog y Tabernacl, King's Cross ac yn gadeirydd y pwyllgor lleol. Cadeiriwyd y cyfarfodydd gan y Parchg Dyfnallt Owen, Caerfyrddin, a thestun anerchiad y cadeirydd newydd, y Prifathro T. Lewis, Aberhonddu oedd 'Yr Hen Destament yn ei berthynas â'r Newydd'. Hwn oedd yr eildro i'r Undeb ymweld â Llundain. Bu yno gynt yn 1898, ond nid bellach ers 1937.

### Chwalfa Sul y Blodau

Ddwy flynedd ar ôl y cyfarfodydd, fe ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd. Yn ystod dyddiau duon 1940–41 fe ddinistriwyd rhannau helaeth o ganol dinas Llundain yn y *Blitz*, gan gynnwys nifer o eglwysi a chapeli. Nid oedd Whitefield's Tabernacle yn eu plith hwy bryd hynny. Ond gyda'r Almaen ar fin colli'r rhyfel, fe wnaeth y Natsïaid ddyfeisio rocedi newydd V-1 a V-2, sef *Vergeltungswaffe* (Arf y Dial). Cawsant eu tanio'n fympwyol at Loegr, a chwe mis cyn diwedd y rhyfel yn Ewrop, ar 25 Fawrth 1945 – Sul y Blodau – fe ddisgynnodd y roced V-2 olaf oll i daro Llundain ar gapel Whitefield's Tabernacle a'i ddinistrio'n llwyr.



### Capel yn codi o'r llwch

Cafodd capel newydd ei godi ar y safle yn 1957 gan yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig (URC). Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, buodd aelodau o luoedd arfog Unol Daleithiau America yn addoli mewn eglwys ger eu llysgenhadaeth yn Grosvenor Square. Ond yn 1972, symudodd yr achos i'r Tabernacl, sy'n dal i fod yn gartref i'r Eglwys Americanaidd Ryngwladol. Mae aelodau Eglwys Lutheraidd Tsieineaidd Llundain hefyd yn addoli yno. Er gwaetha'r chwalfa yn 1945, methodd dialedd y Natsïaid ddiffodd fflam y ffydd ar safle addoldy Whitefield a chyfarfodydd yr Undeb.

**Alun Lenny**

## Swyddog Elusen ac Eiddo



Mae'n llawenydd gennym gyhoeddi bod y Parchg Jill-Hailey Harries wedi ei phenodi yn Swyddog Elusen ac Eiddo  yr Undeb. Swydd rhan amser yw hon sy'n galluogi Jill-Hailey i barhau'n weinidog yn eglwysi Bethel a Trinity , Abertawe a Tabernacl a Bethania, Treforus. Y mae'n wyneb cyfarwydd yn ein plith a bu'n frwd ei gwasanaeth i'r Undeb dros y blynyddoedd. O 1986 -9, hi oedd y Swyddog Ieuenctid, yna bu'n weinidog yn  eglwysi cylchoedd Llanymddyfri a Hendy-gwyn cyn dod i'w maes presennol. Bu'n Llywydd diogel ei harweinaid a'i chefnogaeth dros dair blynedd, adeg y pandemig. Y mae'n aelod o Gyngor a Phwyllgor Gweinyddol yr Undeb a hithau yw cadeirydd yr Adran Genhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang. Gwelodd CWM hefyd ei gorau fel ymddiriedolwr ac aelod o'i fwrdd am dymor o bedair blynedd.

Daw atom wedi lloffa gwybodaeth a phrofiad o sawl maes, ac mae'n sicr y caiff yr eglwysi a'r Undeb elwa'n fawr o'i harweiniad a'i chyngor wrth ddelio â materion digon dyrys elusen ac eiddo. Dymunwn yn dda iddi yn ei gwaith.

### Erratum

Er gwybodaeth.  Ym Mlwyddiadur 2025 y mae'r Wythnos Fawr wedi ei nodi ddwy waith. Yr un cywir yw'r un a geir ar dudalen 16. Ymddiheurwn am unrhyw ddryswch a berir.

# Golygyddol

## Siarad wast

Erbyn hyn rwyf wedi byw talp helaeth o fy mywyd i lawr yma yn y de. A bod yn fanwl gywir y mae hynny'n 30 mlynedd eleni. Nid wy'n credu, er i'r holl flynyddoedd wibio heibio, fy mod yn swnio fel un o frodorion y deheudir, a bellach, go brin y bydd fy acen yn newid. Ond rhaid i mi gyfaddef fy mod yn hoff iawn o rai geiriau deheuol a hyd yn oed yn barod i'w mabwysiadu. Un o'r geiriau cyntaf a ddysgais yng nghegin yr hen Ebeneser, Heol Siarl, oedd y gair 'lletwad'. Roeddem yn gweini cawl Gŵyl Ddewi a gofynnais i Megan Williams, 'Ble mae'r llwy fawr?' atebodd hithau, 'Nid llwy fawr yw honna ond, lletwad!' Nid oeddwn erioed wedi clywed y gair. Ond bellach, lletwad yw'r gair a ddefnyddiaf ar bob cyfle. Dau air arall rwy'n hoff ohonynt yw 'jicôs' a 'moelyd'. I'r rhai ohonoch sy'n anghyfarwydd â hwy, ystyr y cyntaf yw 'dedwydd' ac ystyr yr ail yw 'troi wyneb i waered'. (Mae ceir yn moelyd mewn damweiniau ar y M4.) Da 'di geiriau. Ond yr idiom ddeheuol sy'n dod ar frig fy rhestr ar ddiwedd 2024 a dechrau 2025 yw 'siarad wast'. Ei ystyr, hyd y gwelaf fi, yw rwdlan neu siarad lol disylwedd.



### 2024

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio y mae llawer o siarad wast wedi bod mewn llu o gyfeiriadau i'r fath raddau fel ein bod yn cael trafferth i wahaniaeth rhwng y gwir a'r gau. Y mae llawer o wleidyddion, arweinyddion, cyfathrebwyr, dylanwadwyr, haneswyr, arweinyddion crefyddol yn paldaruo yn ddiddiwedd. Gall hyn fod yn beryglus iawn. Bellach mae pob Dic Siôn Dafydd yn dyrchafu eu hunain fel arbenigwr ar bopeth ac y mae prifysgol Gwgl yn caniatáu iddynt wneud hynny. Mae siarad wast yn ffasiynol ac yn rhan o sin gyfoes ein diwylliant byd-eang. Wrth gwrs y mae'r cyfryngau digidol a chymdeithasol yn rhoi llwyfannau dirifedi i bobl barablu a baldorddi a neb, dim hyd yn oed llywodraethau, gyda'r grym na'r awydd i roi caead ar eu piser. Pa ots os yw rhywun yn rhaffu celwyddau, onid mater o farn yw hynny yn y bôn? Y prif angenrheidiau i lwyddo yw arabedd, hunanhyder a delwedd drawiadol. Trwy hynny fe argyhoeddir llawer fod y bobl hyn yn dweud y gwir ac y dylid eu credu a'u dilyn. Duw a'n gwaredo! Maent yn ymdebygu i rai anrhegion Nadolig sy'n rhwysgfawr, lliwgar, addurnedig, rhubanedig a deniadol ond o'u hagor nid oes na sylwedd na gwerth ffeuen ynddynt.

### Twyllo

Un o'r problemau mawr gyda siarad wast yw bod pobl yn cael eu twyllo a'u harwain ar gyfeiliorn yn feddyliol, ysbrydol, emosiynol ac egwyddorol. Mae cymaint o safbwyntiau ac argyhoeddiadau yn cael eu chwydu o'r cyfryngau fel nad yw pobl yn gallu eu dadansoddi na'u dirnad. O ganlyniad y mae rhai yn cael eu drysu yn llwyr ac yn ymateb yn garlamus, byrbwyll a difeddwl gan fynd gyda'r llif.

### Gogleisiol

Nid rhywbeth newydd yw hyn oherwydd y mae wedi bod yn digwydd trwy'r milenia. Roedd yn digwydd yn yr eglwys yn nyddiau cynnar Cristnogaeth. Dyma pam fod Paul yn rhybuddio Timotheus ifanc fel hyn.

> Mae'r amser yn dod pan fydd pobl ddim yn gallu goddef dysgeidiaeth dda. Byddan nhw'n dilyn eu chwantau eu hunain ac yn dewis pentwr o athrawon fydd ond yn dweud beth maen nhw eisiau ei glywed. ('oglais eu clustiau.' BCN) 4 Byddan nhw'n gwrthod beth sy'n wir ac yn dilyn straeon celwyddog. 5 Ond, Timotheus, paid cynhyrfu beth bynnag sy'n digwydd. Paid bod ag ofn dioddef. Dal ati i rannu'r newyddion da gyda phobl, a gwneud y gwaith mae Duw wedi'i roi i ti.'
>
> 2 Tim 4:3 beibl.net

Roedd rhai yn siarad wast o fewn i'r eglwys.

Fel Cristnogion yn 2025 y mae angen inni fod yn ddylanwad sefydlog a chall o fewn i'n heglwysi a'r diwylliant cyfoes yr ydym yn tystio iddo. Rhan o'n gwaith yw arwain pobl i weld beth sy'n wirionedd gwerth credu ynddo a'i ddilyn. Nid yw pob math o lol yn dderbyniol. Y mae'r gwirionedd sylfaenol hwnnw wedi ei ddatguddio yn Iesu, 'y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd'. Ac mae'r datguddiad hwn yn ein cymodi gyda Duw ac yn rhoi sylfaen gadarn i bobl ddelio gyda holl heriau bywyd cyfoes. O wrando ar y siarad wast cyfoes trwy hidlyddion yr Efengyl gallwn fod yn eglwysi effeithiol sy'n rhoi arweiniad i'n cenedl i ddirnad y gwirionedd. Fel y dywedodd Pantycelyn, 'Iesu, Iesu, rwyt ti'n ddigon.'

Blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch.

**Alun Tudur**

# GOHEBIAETH

Annwyl Olygydd,

Daeth Blwyddiadur 2025 i law, ac o bori drwyddo cefais fy nharo gan nifer o ystadegau am Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Bellach 41 o weinidogion sydd â gofal eglwys(i) yn ein plith; 2 yn gwasanaethu enwadau eraill; 7 heb ofal eglwys; 8 o arweinyddion ac, ers cyhoeddi'r Blwyddiadur daeth y newydd calonogol bod gennym 1 ymgeisydd am y weinidogaeth.

Ymhlith y 41 y mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol, a fydd yn ymddeol ganol 2025. Ers sefydlu'r Undeb yn 1871 gweinidogion ordeiniedig fu pob Ysgrifennydd Cyffredinol, heb law am 5 ohonynt, ac ers i'r swydd fod yn un llawn amser gweinidogion yn unig fu'r deiliaid.

Yn ystod y misoedd nesaf gofynnir i'r cyfundebau enwebu rhai ar gyfer y swydd ac y mae amryw o'n gweinidogion yn gwbl gymwys i'w chyflawni.

Ond, yn wyneb yr ystadegau hyn, beth sy'n fy ngwirioneddol boeni yw y bydd dilyn y patrwm diweddar yn arwain at amddifadu eglwys(i), o'i gweinidog ac, yn anorfod, mai'r unig ffordd i lenwi'r bwlch hwnnw yn ei dro fydd trwy fylchu cylch arall o'i gweinidog – neu 'Arweinydd' – a fyddai'n barod i ymgymryd â'r gwaith yn llawn amser. Eisoes, mae yna gylchoedd 'allweddol' yn ein gwlad yn methu sicrhau gwasanaeth gweinidog ordeiniedig.

Bwriad hyn o air, yw apelio ar y Cyfundebau, yn wyneb yr ystadegau a'r sefyllfa a nodwyd uchod, i ystyried yn ddwys enwebu pobl heblaw gweinidogion ordeiniedig fel Ysgrifennydd Cyffredinol am y tymor nesaf.

Gwn y byddai camu i'r cyfeiriad newydd hwn yn codi llawer o gwestiynau, nid yn lleiaf yr un ynghylch rôl 'fugeiliol' yr Ysgrifennydd Cyffredinol. Ond yn wyneb sefyllfa gyfredol y weinidogaeth yn ein plith credaf fod angen i ni ystyried patrymau gwahanol o ddiogelu gofal 'bugeiliol' yr Undeb.

Gan obeithio y bydd pob cyfundeb yn ei dro o leiaf yn rhoi ystyriaeth i'r awgrym

Yn gywir,

**Hywel Wyn Richards**

*mwy ar y dudalen gefn*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

***Dalier Sylw!***
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dathlu'r Nadolig 2024



*Ysgol Sul Elim, Ffynnonddrain*



*Gwasanaeth gwych a chyfoes gan bobl ifanc Capel Newydd, Llandeilo drefnwyd gan Dyfrig Davies gyda chymorth Nia Clwyd. Hyfryd gweld cyn-ddisgyblion yr ysgol Sul yn cymryd rhan mor hyderus a graenus*



**Saron Creunant**

Mae'r Nadolig wedi bod yn brysur yn Saron Creunant, diolch i Dduw. Dathlwyd trwy ginio Nadolig aelodau a ffrindiau yn y MAG yn y Banwen lle cawsom hwyl gyda'n gilydd. Fe gyrhaeddodd y dathliadau uchafbwynt yn ein cyngerdd carolau elusennol blynyddol lle codwyd dros £300 o bunnoedd at Eisteddfod yr Urdd Margam, 2025. Diolch am gwmni Band Jayne, Ysgol Gymraeg Blaendulais a Maer Castell-nedd.

# GOHEBIAETH

Annwyl Brif Olygydd,

Fel un o'r hen 'stalwarts' sydd wedi bod yn derbyn *Y Tyst* argraffedig am yn agos i 65 o flynyddoedd, ac yn dal i'w ddarllen yn archwaethus o wythnos i wythnos er budd a boddhad. Mi garwn i ychwanegu fy enw at y rhestr o gefnogwyr eraill sydd wedi eu synnu a'u siomi gan y posibilrwydd real y gallwn golli yn y ffurf honno, sy'n fwriad dealladwy ac eto'n 'sad, very sad,' chwedl Gwilym Owen gynt.

Fel un o ddau, yn y tŷ hwn, sy'n edrych ymlaen at ei ddyfodiad penwythnosol cyson, cysurlawn a chynhaliol, mae'n mynd i fod yn golled anodd ei derbyn! Mae fel colli cinio dydd Sul maethlon a blasus. Dyna fe o ran ei gynhwysion, ei amrywiaeth iach, ei weinyddiad teilwng a'i weinidogaeth angenrheidiol.

Dyw e ddim heb ei bwdinau atodol a derbyniol chwaith. Heb sôn am ei halen a'i bupur, yn ôl y galw. Wedi dod adre o'r cwrdd bore Sul a diosg y dillad gore, braf o beth, (wedi sychu'r llestri) yw cael eistedd lawr yng nghwmni 'tystion cyfredol' y dydd ac i gefndir *Bwrw Golwg* a *Songs of Praise*.

**Gerald a Mai Jones**

# Cofiadur 2024

Mae rhifyn Gaeaf 2024 o'r *Cofiadur* ar gael o Dŷ John Penri nawr.

Mae'n cynnwys Darlith Goffa Dr Pennar Davies a'r Dr R. Tudur Jones 2024 a draddodwyd gan y Parchg Ddr Alun Tudur ac erthygl yn seiliedig ar sgwrs a roddwyd gan Mr Richard Huws yng nghyfarfodydd yr Undeb 2024 am ei ewythr y Parchg Rhys Nicholas.

Os hoffech gopi yn rhad ac am ddim, cysylltwch â Thŷ John Penri i'w archebu: undeb@annibynwyr.cymru neu 01792 795888. Mae hefyd ar gael i'w ddarllen ar y we.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*